



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2013

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Cyhoeddwyd: Mawrth 2014

Cyfeirnod y ddogfen: 101A2014

Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n berthnasol, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Mike Jones, Derwyn Owen, Dave Thomas a Mandy Townsend.

Cynnwys

Adroddiad cryno	4
Adroddiad manwl	
Yr adroddiad hwn	7
Adran 1: Archwilio cyfrifon	8
Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13 y Bwrdd lechyd, er i rai materion gael eu tynnu at sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio	8
Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau	11
Dywed y Bwrdd lechyd y bydd yn methu â mantoli'r gyllideb ar gyfer 2013-14 a'i fod yn wynebu heriau ariannol sylweddol yn y tymor byr a'r tymor canolig	11
Ategir trefniadau llywodraethu'r Bwrdd gan ddiwylliant sefydliadol da sy'n canolbwyntio ar wrando a dysgu ac mae cynlluniau ar waith i ddatblygu'r trefniadau hyn ymhellach	13
Mae gan y Bwrdd lechyd gryn dipyn i'w wneud eto er mwyn gwneud defnydd effeithlon ac effeithiol o'i adnoddau, ond mae'n gwneud cynnydd cyson mewn nifer o feysydd cynyddol	18
Atodiadau	
Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf	25
Ffi archwilio	26
Risgiau archwiliad ariannol	27

Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2013.
2. Mae'r gwaith a wnaed gennyf yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
3. Canolbwyntiodd fy ngwaith archwilio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn [Atodiad 1](#).
4. Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 20 Ionawr 2014. Yna caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).
5. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

Adran 1: Archwilio cyfrifon

6. Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at rai materion wrth wneud hynny. Roedd yr achosion hyn yn ymwneud â'r canlynol:
 - ansicrwydd ynghylch cywirdeb y ffigurau a gyflwynwyd ar berfformiad yn erbyn Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus; a'r ffaith i'r Bwrdd Iechyd lwyddo i gadw o fewn ei Derfyn Adnoddau Refeniw ar gyfer y flwyddyn ond dim ond drwy gymorth dyraniad ychwanegol o £10 miliwn gan Lywodraeth Cymru.
7. Deuthum i'r casgliadau canlynol hefyd:
 - paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
 - roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; ac
 - roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol, yn ôl y bwriad.

Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

8. Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd lechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig wedi ystyried cadernid trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd lechyd a digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu, gan gynnwys llywodraethu ansawdd a threfniadau i fesur profiadau cleifion/defnyddwyr a'u gwella. Hefyd, cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad o feysydd darparu gwasanaethau penodol. Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

Dywed y Bwrdd lechyd y bydd yn methu â mantoli'r gyllideb ar gyfer 2013-14 a'i fod yn wynebu heriau ariannol sylweddol yn y tymor byr a'r tymor canolig

9. Mae'r Bwrdd lechyd yn cymryd camau cadarnhaol tuag at roi trefniadau rheoli ariannol cadarn a chynaliadwy ar waith, ac mae'r arbedion cost arfaethedig yn cael eu cyflawni i raddau helaeth, ond yn yr wythfed mis, mae'r Bwrdd lechyd yn rhagweld gorwariant o £6 miliwn ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2014, ac mae'n ceisio nodi arbedion pellach i leihau'r gorwariant hwn. Mae'r Bwrdd lechyd wedi ystyried ble y gellid gwneud yr arbedion mwyaf sylweddol ac wedi ymgynghori arnynt, gan nodi themâu arbed i'w hystyried yn unigol gan bob cyfarwyddiaeth.
10. Er gwaethaf camau cadarnhaol o'r fath, mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol yn y tymor byr a'r tymor canolig am y rhesymau canlynol:
- mae'r broses a roddwyd ar waith i nodi a chyflawni arbedion yn gymharol newydd ac nid yw wedi'i hymgorffori'n llawn eto;
 - mae maint yr heriau ariannol a nodwyd gan y Bwrdd lechyd (£72 miliwn dros y tair blynedd nesaf) yn golygu, hyd yn oed gyda rhaglenni rheoli ariannol ac arbed cadarn, y bydd yn anodd iawn cadw o fewn terfynau adnoddau a ddyrannwyd; ac
 - ni chaiff rhywfaint o'r gwariant sylweddol o fewn y system ei reoli'n uniongyrchol gan y Bwrdd lechyd (er enghraifft, telerau ac amodau staff).

Ategir trefniadau llywodraethu'r Bwrdd lechyd gan ddiwylliant sefydliadol da sy'n canolbwyntio ar wrando a dysgu ac mae cynlluniau ar waith i ddatblygu'r trefniadau hyn ymhellach

11. Mae'r Bwrdd wedi parhau i ddatblygu ei drefniadau ar gyfer sicrwydd y bwrdd a'i reolaethau mewnol ac maent yn effeithiol i raddau helaeth ac wedi'u hategu gan drefniadau herio a chraffu clir a chadarnhaol.
12. Mae angen troi'r diwylliant gwranddo cadarnhaol a'r awydd i ddysgu gan gleifion yn ddull systematig a chydgyssylltiedig o ymgorffori dysgu sefydliadol yn hytrach na dysgu unigol ac fel tîm, ac ymestyn hynny i gynnwys adborth gan staff.

-
13. Mae gan y Bwrdd Iechyd amrywiaeth da o systemau i gasglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, ac mae awydd clir i wrando ar gleifion. Ymddengys bod diwylliant cadarnhaol ynghylch cwynion, pryderon a hawliadau, ac mae trefniadau da ar waith sy'n arwain at ymatebion prydlon. Caiff staff eu hannog i gofnodi digwyddiadau; ceir proses ymchwilio safonol a chaiff themâu eu dadansoddi'n ganolog.
 14. O ran chwythu'r chwiban, gall staff godi pryderon drwy lwybrau anffurfiol ac ymddengys bod hyn yn gweithio yn ymarferol, ond mae'n peri risgiau na chaiff unigolion a rheolwyr eu diogelu drwy'r ddeddfwriaeth, ac yn hollbwysig, na chaiff gwersi eu dysgu mewn modd systematig.
 15. Mae awydd clir i ddysgu o'r holl ffynonellau adborth, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen dysgu gwersi yn ganolog ac mewn modd systematig, gan gymryd camau a rhannu gwybodaeth.
 16. Caiff diwylliant agored ac sy'n canolbwyntio ar roi trefniadau ansawdd a diogelwch sylfaenol ar waith ei atgyfnerthu gan gynlluniau i gynyddu effeithiolrwydd a gwella ansawdd gwybodaeth.

Mae gan y Bwrdd Iechyd gryn dipyn i'w wneud eto er mwyn gwneud defnydd effeithlon ac effeithiol o'i adnoddau, ond mae'n gwneud cynnydd cyson mewn nifer o feysydd cynyddol

17. Gwnaed cynnydd cyson yn y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â materion blaenorol o ran y defnydd a weir o adnoddau, ond cydnabyddir bod angen gwneud rhagor o waith. Er enghraifft, mae Cyfarwyddwr newydd y Gweithlu yn diwygio trefniadau cynllunio'r gweithlu, ac mae'r gwaith o wella hen gyfleusterau yn parhau gydag agor Parc Iechyd Merthyr Tudful, a'r gwaith parhaus o adnewyddu Ysbyty'r Tywysog Siarl.
18. Caiff trefniadau rheoli'r Bwrdd Iechyd o ran rhagnodi ym maes gofal sylfaenol eu hategu gan weledigaeth strategol glir ac arweinyddiaeth dda. Gwnaed cynnydd da i sicrhau arbedion ariannol drwy drefniadau rhagnodi mwy rhesymol, ond erys lefelau uchel o ragnodi o hyd ac mae lle i wella ansawdd trefniadau rhagnodi, yn ogystal â chost y trefniadau hynny mewn meysydd allweddol.
19. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael trafferth cyflawni nifer o'r targedau perfformiad allweddol a nodwyd yn fframwaith cyflawni Llywodraeth Cymru, ond mae arwyddion o welliannau diweddar. Yn benodol, cymysg yw perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn cyfres o fesurau effeithlonrwydd a dangosyddion ansawdd. Er enghraifft, mae cyfraddau *Clostridium difficile* y bwrdd ymhlith y rhai isaf yng Nghymru, ac mae'r cyfraddau MRSA islaw cyfartaledd Cymru. Er bod y gallu i gael mynediad amserol at wasanaethau yn gymharol wael, bu rhai arwyddion o welliant yn 2013.
20. Dengys fy ngwaith dilynol ar feysydd penodol hefyd fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd ar faterion a nodwyd mewn blynyddoedd blaenorol, ac mae rhagor o gynnydd yn cael ei wneud. Er enghraifft, gwelwyd cynnydd da ym maes bwyd ac arlwygo mewn ysbytai, a rheoli contractau meddygon ymgynghorol.
21. Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

Adroddiad manwl

Yr adroddiad hwn

22. Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2012 a mis Tachwedd 2013.
23. Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
 - bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a
 - bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
24. Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
 - gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a'r defnydd o adnoddau;
 - hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
 - archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
 - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
 - gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.
25. Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn [Atodiad 1](#).
26. Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
- archwilio cyfrifon; a
 - threfniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.
27. Yn olaf, rhydd [Atodiad 2](#) yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o Archwiliad Blynyddol.
28. Yn olaf, mae [Atodiad 3](#) yn nodi'r risgiau archwilio ariannol a nodwyd yn fy Amlinelliad o Archwiliad Blynyddol ar gyfer 2013 ynghyd â'r modd yr aed i'r afael â hwy drwy'r archwiliad.

Adran 1: Archwilio cyfrifon

- 29.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2012-13. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredol net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.
- 30.** Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:
- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
 - a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol – a achoswyd drwy dwyll neu wall;
 - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill, ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
 - a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
 - rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.
- 31.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).
- 32.** Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:
- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd; a'r
 - systemau ariannol a ddefnyddir i lunio'r datganiadau ariannol.

Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13 y Bwrdd Iechyd, er i rai materion gael eu tynnu at sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio

Paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

- 33.** Paratowyd y datganiadau ariannol nas archwiliwyd yn unol â'r amserlen ofynnol ac i safon dda, ac fe'u hategwyd gan bapurau gwaith o ansawdd da ar y cyfan.

-
34. Yn unol â Safon Archwilio Ryngwladol 260 (ISA 260), mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd Arweinydd Ymgysylltu'r Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd lechyd ar 5 Mehefin 2013. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

Mater	Sylwadau archwilwyr
Perfformiad a nodwyd o ran Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus	<ul style="list-style-type: none">• Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed ariannol i dalu o leiaf 95 y cant o anfonebau a dderbynnir gan gredydwyr nad ydynt yn rhan o'r GIG o fewn 30 diwrnod i'w derbyn. Dywed y Bwrdd lechyd yn Nodyn 7.1 i'r datganiadau ariannol ei fod wedi cyflawni'r targed hwn, gan dalu 97.6 y cant o anfonebau gan gredydwyr nad ydynt y rhan o'r GIG o fewn yr amser penodedig.• Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai'r 'cloc ddechrau' pan fydd y Bwrdd lechyd yn derbyn yr anfoneb gyntaf. Ar hyn o bryd, mae Bwrdd lechyd Cwm Taf yn dechrau'r cloc pan ddaw'r anfoneb i law yr adran Caffael i Dalu. Mae profion archwilio blaenorol gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi enghreifftiau lle caiff yr anfoneb ei derbyn gan adrannau eraill, ond na chaiff ei stampio i ddangos ei bod wedi cael ei derbyn ar y dyddiad hwnnw. Felly, nid yw bob amser yn bosibl nodi'r union ddyddiad y caiff ei derbyn. Mae'n bosibl, felly, fod perfformiad y Bwrdd lechyd wedi'i orddatgan yn hyn o beth.• Ar gyfer anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch, mae Llywodraeth Cymru wedi egluro y dylai'r cloc stopio pan nodir bod anghydfod ynghylch yr anfoneb ac yna aildechrau pan gaiff yr anghydfod hwnnw ei ddatrys. Mae'r Bwrdd lechyd wedi rhoi gweithdrefnau ar waith eleni i nodi dyddiad dechrau a gorffen y cyfnod y ceir anghydfod yn ei gylch ar y system taliadau. Fodd bynnag, mae peth amheuaeth ynghylch a yw'r ffigurau a gofnodwyd yn Nodyn 7.1 wedi ystyried hyn yn gywir. Mae'n bosibl, felly, fod perfformiad y Bwrdd lechyd wedi'i danddatgan yn hyn o beth.

Mater	Sylwadau archwilwyr
<p>Pwysau ariannol a chyllid</p>	<p>Rwyf wedi bod yn monitro sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd fel y'i cyflwynwyd i'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru drwy'r flwyddyn. Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, daeth yn amlwg i Lywodraeth Cymru bod angen cyllid adnoddau ychwanegol ar fyrddau iechyd.</p> <p>Ym mis Tachwedd 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant gyllid adnoddau ychwanegol o £82 miliwn er mwyn galluogi'r GIG i reoli'r pwysau presennol a chynnal ansawdd y gofal. Neilltuwyd £10 miliwn o'r cyllid hwn i'r Bwrdd Iechyd, gan olygu mai ei ragolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn oedd y byddai'n mantoli'r gyllideb yn hytrach na gorwario £10 miliwn fel y rhagwelwyd yn flaenorol.</p> <p>Ar 5 Mawrth 2013, ysgrifennodd Prif Weithredwr GIG Cymru at brif weithredwyr cyrff y GIG i egluro na fyddai unrhyw gyllid pellach ar gael gan Lywodraeth Cymru ac y câi amodau eu gosod ar gyfrifon byrddau iechyd lleol sy'n methu â chyflawni eu targedau ac y cânt eu cyfeirio at lefel uwch.</p> <p>Nododd y Bwrdd Iechyd danwariant o £17,000 yn erbyn ei derfyn adnoddau ar gyfer 2012-13. At hynny, darparodd froceriaeth adnoddau o £355,000 i Lywodraeth Cymru yn 2012-13, a ad-delir iddo yn 2013-14. Gan fod y Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd ei derfyn adnoddau, barn ddiamed a roddodd yr Archwilydd Cyffredinol ar reoleidd-dra.</p>

Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, gwneuthum hefyd gynnal yr adolygiadau canlynol

35. Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2013, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.
36. Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad fod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
37. Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheoli effeithiol i leihau'r risg o gamdatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol.
38. Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol, yn ôl y bwriad.

Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

- 39.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd lechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:
- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd lechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o gyflawni balans ariannol;
 - asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd lechyd drwy fy ngwaith mewn perthynas â'r Aseiad Strwythuredig, gyda phwyslais penodol ar brosesau llywodraethu o safon a chadernid trefniadau ar gyfer asesu profiadau cleifion/defnyddwyr gwasanaethau;
 - gwaith penodol ar y defnydd a wneir o adnoddau mewn perthynas â rhagnodi ym maes gofal sylfaenol, perfformiad yn erbyn targedau gwasanaeth allweddol ar gyfer effeithlonrwydd ac ansawdd gwasanaethau a'r gallu i gael gafael arnynt; ac
 - asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd lechyd wrth ymdrin â'r materion a nodwyd gan waith archwilio blaenorol o ran contractau meddygon ymgynghorol, a bwyd ac arlwyo mewn ysbytai.
- 40.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

Dywed y Bwrdd lechyd y bydd yn methu â mantoli'r gyllideb ar gyfer 2013-14 a'i fod yn wynebu heriau ariannol sylweddol yn y tymor byr a'r tymor canolig

Mae'r arbedion cost arfaethedig yn cael eu cyflawni i raddau helaeth, ond yn yr wythfed mis, mae'r Bwrdd lechyd yn rhagweld gorwariant o £6 miliwn ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2014.

- 41.** Llwyddodd y Bwrdd lechyd i gadw o fewn ei Derfyn Adnoddau Refeniw ar gyfer 2012-13 drwy gyflawni arbedion a sicrhau cyllid ychwanegol o £10 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Roedd y Bwrdd lechyd wedi gobeithio mantoli'r gyllideb heb y cyllid hwn ond ni chyflawnodd y cynlluniau arbed y targedau uchelgeisiol ac mae'n bosibl eu bod wedi'u llunio'n afrealistig.

-
- 42.** Yn wreiddiol, nododd y Bwrdd Iechyd gynlluniau arbed o tua £15 miliwn ar gyfer 2013-14. Fodd bynnag, bryd hynny, roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg o £20.8 miliwn ar gyfer y flwyddyn, gan dybio y câi'r arbedion hyn eu gwneud. Ym mis Hydref 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £16.9 miliwn o gyllid ychwanegol. Gadawodd hyn ddiffyg posibl o £8.1 miliwn gan fod y Bwrdd Iechyd wedi rhagweld £4.1 miliwn o gyllid ychwanegol ac wedi cynnwys hyn yn ei gynlluniau ariannol. Ailystyriodd y Bwrdd Iechyd ei ragolwg ar ôl i'r cyllid ychwanegol gael ei gyhoeddi. Lleihaodd ei ddiffyg arfaethedig i £6.5 miliwn, sef y gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn a ragwelir ar hyn o bryd.
- 43.** At hynny, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld problem posibl o ran llif arian parod yn ystod misoedd cyntaf 2014 ac mae'n bosibl y bydd angen iddo ystyried gohirio taliadau credydwr cyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau cadarnhaol i wella trefniadau rheoli ariannol a symud tuag at sefyllfa ariannol gynaliadwy, ond nid yw'r trefniadau newydd wedi'u hymgorffori'n llawn eto ac nid yw'r risgiau allanol sylweddol i gynaliadwyedd wedi'u lliniaru eto

- 44.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau cadarnhaol tuag at drefniadau rheoli ariannol cynaliadwy. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried ble y gellid gwneud yr arbedion mwyaf sylweddol ac wedi ymgynghori ar hynny. Mae wedi nodi themâu arbed i'w hystyried yn unigol gan bob Cyfarwyddiaeth. Mae'r Weithrediaeth a'r Swyddfa Rheoli Prosiectau yn cynnal Cyfarfodydd Busnes Clinigol misol â chyfarwyddiaethau er mwyn trafod materion cyllid a materion eraill. Mae hyn yn helpu i integreiddio materion yn ymwneud ag ansawdd, perfformiad a chyllid.
- 45.** Diweddarwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ym mis Medi 2013. Mae'r cynllun hwn yn dangos bod angen £72 miliwn ar y Bwrdd Iechyd dros dair blynedd er mwyn mantoli'r gyllideb. Fodd bynnag, mae risgiau sylweddol i gyflawni'r cynllun hwn:
- mae £72 miliwn yn sylweddol uwch na'r arbedion a wnaed yn flaenorol gan y Bwrdd Iechyd;
 - Nododd y Bwrdd Iechyd fod £25 miliwn yn ymwneud â 'materion Cymru gyfan' ac felly y tu hwnt i reolaeth y Bwrdd Iechyd (ee, telerau ac amodau cyflogaeth, contractau â meddygon teulu a deintyddion);
 - byddai'r £47 miliwn sy'n weddill yn golygu y gallai fod angen lleihau'r gweithlu 639 (naw y cant) dros dair blynedd; a
 - thra'n aros am ganlyniad Rhaglen De Cymru, oherwydd ansicrwydd, nid yw'r cynllun yn rhoi unrhyw ystyriaeth i Gynllun De Cymru ac mae'n tybio y caiff dyraniadau arian parod sefydlog eu gwneud dros y tair blynedd.

Ategir trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd gan ddiwylliant sefydliadol da sy'n canolbwyntio ar wrando a dysgu ac mae cynlluniau ar waith i ddatblygu'r trefniadau hyn ymhellach

Mae'r Bwrdd wedi parhau i ddatblygu ei drefniadau ar gyfer sicrwydd y bwrdd a'i reolaethau mewnol ac maent yn effeithiol i raddau helaeth ac wedi'u hategu gan drefniadau herio a chraffu clir a chadarnhaol

- 46.** Mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau wedi parhau i ddatblygu o fewn Fframwaith Sicrwydd cyffredinol y Bwrdd sy'n gweithredu'n effeithiol. Bu rhywfaint o drosiant naturiol o fewn y tîm gweithredol, ac yn gadarnhaol ddigon, mae'r Bwrdd wedi manteisio ar hyn i ddarparu safbwyntiau newydd ar ei arferion gwaith a'u diwygio lle y bo angen. Yn benodol, rwyf wedi nodi cynnydd o ran y materion canlynol:
- Ymddengys bod y Bwrdd wedi nodi fframwaith sicrwydd cydlynol ar gyfer y Bwrdd, sef un o argymhellion allweddol fy ngwaith yn 2012.
 - Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi'r argymhellion a wnaed gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn 2012 ar waith yn llawn, ac yn bwysig ddigon, wedi hunanasesu effeithiolrwydd y newidiadau hyn yng nghyd-destun adroddiad Francis, fy adroddiad ar y cyd ag AGIC ar drefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, adroddiadau Keogh, Powell a Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd. Bellach mae'r Bwrdd wrthi'n gwneud mân newidiadau pellach i reolaethau mewnol, systemau sicrwydd y bwrdd a strwythurau pwyllgorau'r Bwrdd.
 - Canfu fy nhîm fod y pwyllgorau Llywodraethu a Chyllid a Pherfformiad Integredig yn gweithredu yn ôl y bwriad; a nododd drefniadau herio a chraffu cefnogol da ar lefel Bwrdd a phwyllgorau allweddol yn ystod 2013.
- 47.** Atgyfnerthwyd rheolaethau mewnol drwy roi ffocws newydd ar drefniadau rheoli ar y safle a arweinir yn glinigol. Ail-luniwyd rolau cyfarwyddwyr cynorthwyol a'r tîm trawsnewid er mwyn rhoi cymorth i'r meysydd perfformiad allweddol megis gofal heb ei drefnu a gofal dewisol neu ofal a gynlluniwyd ymlaen llaw.
- 48.** Mae gwybodaeth reoli yn parhau i ddatblygu. Mae'r fformat gwell o ran cyflwyno adroddiadau yn rhoi mwy o eglurder ynghylch y camau sydd angen eu cymryd i wella perfformiad. Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau i fynd i'r afael â'r bylchau sy'n weddill mewn gwybodaeth am wasanaethau cymunedol a gwasanaethau a gomisiynwyd yn 2014.

Mae angen troi'r diwylliant gwranddo cadarnhaol a'r awydd i ddysgu gan gleifion yn ddull systematig a chydgysylltiedig o ymgorffori dysgu sefydliadol yn hytrach na dysgu unigol ac fel tîm, ac ymestyn hynny i gynnwys adborth gan staff

- 49.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio amrywiaeth da o systemau i gasglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys arolygon papur ac wyneb yn wyneb, blychau awgrymiadau, archwiliadau Hanfodion Gofal, cyfryngau cymdeithasol a fforymau'r cyngor iechyd cymuned a fforymau cleifion mewn ysbytai. Mae aelodau Gweithredol ac Annibynnol yn cynnal ymweliadau wedi'u trefnu a diry budd rheolaidd gan ddefnyddio templed safonol, gan nodi materion yn ymwneud â 1,000 o Fywydau ac urddas a pharch. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ymestyn hyn ymhellach drwy ddatblygu'r defnydd a wneir o'i fforwm ymgysylltu â'r gymuned ym mhob un o gymunedau'r cymoedd er mwyn casglu adborth ehangach ar brofiadau defnyddwyr. Mae'r bwriad i gysylltu'r cyswllt â dinasyddion â phrofiadau cleifion yn beth cadarnhaol, ond heb unrhyw adnodd canolog penodol ar gyfer casglu profiadau cleifion, bydd cydgysylltu'r gwaith hwnnw yn parhau'n her. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu Strategaeth Profiadau Cleifion Cymru Gyfan ac mae ganddo gynllun gweithredu ar waith er mwyn sicrhau y caiff ei gweithredu'n llawn yn 2013-14. Cynlluniwyd datblygiadau cadarnhaol mewn perthynas â chynnwys mesurau profiadau cleifion yn nangosfwrdd y Bwrdd ac ymestyn y defnydd o 'straeon digidol'. Fodd bynnag, mae lle i wneud y canlynol:
- ymestyn graddfa a chwmpas arolygon cleifion, gan fod llawer o'r arolygon papur yn cael eu dosbarthu ar raddfa fach neu'n cael eu cyfyngu i adrannau neu wasanaethau penodol; a
 - defnyddio ystod ehangach o ddulliau i gynyddu cyfleoedd i bobl fynegi eu barn ar wasanaethau (er enghraifft, cyfrifiaduron llechi, negeseuon testun, arolygon electronig neu dros y ffôn, dyddiaduron cleifion, siopa dirgel, a mapio taith cleifion).
- 50.** Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn dangos awydd clir i ddysgu am brofiadau cleifion. Er enghraifft, mae cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol a rhai o gyfarfodydd y Bwrdd yn dechrau gyda stori am glaf, ac mae cyfarfodydd diweddar y Bwrdd wedi derbyn adroddiadau am brofiadau cleifion.
- 51.** Mae trefniadau da ar waith i ddelio â chwynion, gan arwain at ymatebion amserol, ond erys heriau mewn perthynas â nifer y cwynion ac o ran cynnal ymatebion prydlon yn gyffredinol (yn enwedig yn achos cwynion mwy cymhleth). Creffir ar bryderon a chwynion drwy'r Panel Pryderon sy'n adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol, a thrwy hynny i'r Bwrdd. Caiff cwynion eu hystyried yn gyfleoedd dysgu yn ôl pob golwg a chanfu fy nhîm fod y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Nyrsio yn adolygu pob cwyn a geir yn bersonol. Mae'r cyngor iechyd cymuned yn fodlon ar y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn delio â chwynion gan gleifion, a chyfeiriodd yn gadarnhaol at y diwylliant sy'n datblygu yn y Bwrdd Iechyd.

-
- 52.** Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer delio â phryderon a chwynion yn cymharu'n dda â gweddill Cymru. Nododd fy nhîm fod staff wedi cael eu hyfforddi'n briodol, bod cwynion yn cael eu trin mewn modd tryloyw, a bod cyfarwyddiaethau'n cael eu cefnogi wrth ddelio â chwynion gan y tîm canolog o reolwyr ymchwiliadau. Ymddengys bod cydbwysedd priodol rhwng canoli prosesau rheoli cwynion a dysgu gyda pherchenogaeth leol yn cael ei hwyluso gan reolwyr ymchwiliadau. Fodd bynnag, mae angen atgyfnerthu'r modd y caiff camau gweithredu ar themâu cyffredin eu cydgysylltu.
- 53.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi annog trefniadau i gofnodi digwyddiadau, ac mae grwpiau ffocws yn adlewyrchu hyder staff. Mae polisi, gweithdrefn a chanllawiau corfforaethol ar waith sy'n diffinio 'digwyddiadau' yn glir ac yn pwysleisio pwysigrwydd cofnodi digwyddiadau. Ceir proses ymchwilio safonol a chaiff themâu eu dadansoddi'n ganolog. Mae'r rheolwyr ymchwiliadau yn helpu i safoni'r modd y caiff digwyddiadau eu rheoli, gyda dull gweithredu sy'n canolbwyntio nid yn unig ar gofnodi ond hefyd ar gymryd camau gweithredu. Fodd bynnag, mae angen cydgysylltu'r broses ganolog o ddysgu o ddigwyddiadau yn well. Hyfforddwyd staff i ddefnyddio Datix, ond roedd rhai materion yn ymwneud â'r ffaith bod system Datix yn newid i 'fodd segur' a'r amser y mae'n ei gymryd i gwblhau digwyddiad. Ymddengys bod cydymffurfiaeth dda â'r gofyniad i gyflwyno adroddiadau ar ddigwyddiadau difrifol i Lywodraeth Cymru, ond, fel nifer o fyrddau iechyd, gall Cwm Taf fod yn araf yn cau digwyddiadau y rhoddir gwybod i Lywodraeth Cymru amdanynt. Fodd bynnag, rhoddir diweddariadau amserol i naill ai'r Panel Craffu neu'r Bwrdd fel y bo'n briodol.
- 54.** Ni chofnodwyd unrhyw achosion o staff yn chwythu'r chwiban yn ystod y 12 mis diwethaf. Ni chafodd y Bwrdd unrhyw adroddiadau ar chwythu'r chwiban ac nid oedd Aelodau Annibynnol yn ymwneud â monitro'r trefniadau ar gyfer ymdrin â phryderon staff. Daeth y polisi newydd ar chwythu'r chwiban ar gyfer Cymru gyfan i rym ym mis Gorffennaf 2013 ac, yn sgil hynny, gallai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei arferion. Canfu fy nhîm fod staff y Bwrdd Iechyd yn gallu codi pryderon drwy lwybrau anffurfiol: er enghraifft, mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn annog staff i gysylltu â hi yn uniongyrchol. Er bod y trefniadau anffurfiol hyn i staff godi pryderon yn cynnig buddiannau, rhaid i'r Bwrdd sicrhau nad yw hyn yn cyfyngu ar ei allu i goladu pryderon a dadansoddi tueddiadau a themâu cyffredinol. At hynny, oni chaiff y pryderon a godir eu cofnodi'n ffurfiol, ni all y Bwrdd Iechyd sicrhau bod unigolion yn cael eu diogelu o dan y gyfraith rhag achosion o wrthgyhuddo neu wahaniaethu dilynol. Ni all ychwaith ddangos ei fod wedi gweithredu'n briodol i ddiogelu chwythwyr chwiban unigol.
- 55.** Nododd fy staff fod cytundebau cyfaddawd (neu 'gymalau cau ceg') wedi'u defnyddio yn y gorffennol wrth i staff adael y sefydliad ond nid ers 2012. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod cytundebau cyfaddawd cynharach yn gysylltiedig â diogelwch cleifion.

56. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen datblygu dull canolog a systematig o ddysgu gwersi sy'n cyfleu gwybodaeth o ffynonellau gwahanol ac yn cefnogi camau effeithiol. Ar hyn o bryd, ni chaiff canlyniadau profiadau cleifion o ffrydiau gwaith gwahanol eu coladu'n ganolog er mwyn meithrin safbwynt ehangach ar draws y sefydliad ac nid ydynt yn cwmpasu data naratif, rhifol nac amser real yn systematig. Er bod data digwyddiadau a chamau a gymerwyd wrth ymateb i ddigwyddiadau yn cael eu cyhoeddi i staff drwy gylchlythyr misol, mae dull gweithredu'r Bwrdd Iechyd yn golygu bod nifer o gynlluniau gweithredu yn cael eu llunio (un ar gyfer pob episod), sydd mewn llawer o achosion yn dyblygu camau gweithredu mewn timau gwahanol. Ceir dysgu ar lefel leol, ac mae llawer o enghreifftiau o newid arferion a rhai o newid gwasanaethau, ond mae llai o dystiolaeth o ddysgu sefydliadol a cheir enghreifftiau o ddyblygu themâu mewn meysydd clinigol gwahanol.

Caiff diwylliant agored ac sy'n canolbwyntio ar roi trefniadau ansawdd a diogelwch sylfaenol ar waith ei atgyfnerthu gan gynlluniau i gynyddu effeithiolrwydd a gwella ansawdd gwybodaeth

- 57.** Mae gan y Bwrdd Iechyd ddiwylliant agored a ffocws clir ar wneud y pethau sylfaenol yn gywir. Mae llawer o'r camau pwysig ar gyfer creu diwylliant tryloyw – er enghraifft, ffrydiau gwaith urddas a pharch – wedi'u hymgorffori'n dda. Mae rheoli risg yn rhan annatod o fframwaith sicrwydd y Bwrdd a chaiff risgiau o ran ansawdd eu nodi ac eir i'r afael â hwy. At hynny, nododd fy nhîm fod y broses o reoli risgiau o ran ansawdd wedi'i hintegreiddio'n well ar draws y Bwrdd Iechyd o gymharu â'r dulliau ar wahân yn y gogledd a'r de a fodolai mewn blynyddoedd blaenorol.
- 58.** Er bod y Bwrdd yn arddel ac yn hyrwyddo diwylliant agored, gallai ddangos hyn yn well drwy wella argaeledd gwybodaeth dryloyw ac sydd ar gael i'r cyhoedd, er enghraifft drwy gyhoeddi agendâu a phapurau ei bwyllgorau ar y rhyngwyd.
- 59.** Mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu ffactorau ysgogi ansawdd allweddol a'u defnyddio, ac mae proses systematig o adolygu marwolaethau yn mynd rhagddi er mwyn canfod achosion Mynegai Marwolaethau wedi'i Addasu yn ôl Risg (RAMI) uchel a deall y problemau sy'n sail i hynny.
- 60.** Mae strwythurau goruchwyllo ansawdd y Bwrdd yn ddigonol ar y cyfan i ategu trefniadau llywodraethu ansawdd:
- Mae gan bob pwyllgor ac is-bwyllgor rolau a chylch gorchwyl clir, ac nid oes unrhyw fylchau amlwg. Er nad yw rhai is-bwyllgorau wedi'u hadolygu'n flynyddol yn ôl y bwriad, mae Ysgrifennydd y Bwrdd wrthi'n eu hadolygu ar hyn o bryd.
 - Mae trefniadau Llywodraethu Corfforaethol a Llywodraethu Clinigol ar wahân yn golygu y gellir ystyried risgiau clinigol yn glir, ar wahân i faterion iechyd a diogelwch a risgiau busnes. Fodd bynnag, mae'r dull gweithredu hwn yn golygu bod dull cwbl integredig o ymdrin ag ansawdd, diogelwch a risg yn fwy heriol.

-
- Gallai dibyniaeth is-bwyllgorau ar weithdrefnau cyfeirio at lefel uwch olygu bod materion pwysig yn cael eu hanwybyddu oni chaiff y data eu cynnwys yn y dangosfwrdd neu mewn adroddiadau eraill ar ansawdd. Fodd bynnag, ni welodd fy nhîm unrhyw dystiolaeth o faterion a gollwyd, a nodwyd rhai enghreifftiau o faterion a gyfeiriwyd at lefel uwch. Fodd bynnag, byddai defnydd mwy systematig o ddatganiadau sicrwydd gan is-bwyllgorau yn atgyfnerthu'r gadwyn sicrwydd i'r Bwrdd.
- 61.** Cydnabu'r Bwrdd y gellid atgyfnerthu strwythurau sicrwydd y bwrdd a chymeradwyodd yn ddiweddar gynigion i newid y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch, a datblygu strategaeth ansawdd ffurfiol. Mae gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch newydd gynllun gwaith clir a strwythuredig. Gallai newidiadau arfaethedig i'r strwythurau eu gwneud yn fwy effeithlon a chynyddu effeithiolrwydd y broses o graffu ar faterion ansawdd a diogelwch.
 - 62.** Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol wedi esblygu ers adolygiad AGIC yn 2012, drwy gymryd ystod eang o adroddiadau a sicrhau ei fod yn cwmpasu'r prif feysydd sy'n peri risg yn fanwl. Mae aelodaeth a phresenoldeb y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol yn dda. Gwelsom waith herio a chraffu da a chadarn gan Aelodau Annibynnol, yn enwedig mewn perthynas â chadernid data, ceisio eglurder a herio'r sail dystiolaeth. Caiff y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol, ei is-bwyllgorau a'r Bwrdd ei hun adroddiadau rheolaidd ar ddigwyddiadau. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol yn rhoi sicrwydd effeithiol i'r Bwrdd, gan nodi risgiau a'u cyfeirio at lefel uwch. Mae'n cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd ar ei weithgareddau, ac yn dwyn materion o bwys i sylw'r Bwrdd. Fodd bynnag, mae llwyth gwaith y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol yn drwm, ac mae'r cyfarfodydd yn hir a dwys. Gwelsom mai ychydig iawn o amser a dreuliwyd yn ystyried rhai eitemau pwysig ar yr agenda, ond roedd gwaith craffu a dealltwriaeth yn dda. Roedd y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol yn asesu ei drefniadau ei hun yn rhagweithiol yn erbyn adroddiadau Francis, Keogh, Cydadolygiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac adroddiad Powell, a lluniodd gynllun cyfunol i ddiwygio ac atgyfnerthu ei drefniadau gweithio ac agendâu ar gyfer y dyfodol. Mae'r cynllun gweithredu cyfunol bellach ar waith a bydd yn llywio rhaglen waith y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch newydd.
 - 63.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen gwella'r wybodaeth sy'n sail i'w waith ar ansawdd a diogelwch drwy atgyfnerthu trefniadau ansawdd data a mireinio ei ddangosfwrdd perfformiad integredig. Mae'r Bwrdd yn defnyddio dangosfwrdd perfformiad integredig, sy'n cynnwys rhai dangosyddion ansawdd ac mae'n cael ei fireinio o fis i fis. Mae'r Bwrdd yn defnyddio dull pragmataidd o atgyfnerthu ei gofnodion ansawdd, fodd bynnag, mae llawer o'r ffocws ar hyn o bryd ar ofal aciwt a mesurau cenedlaethol, ac nid oes digon o bwyslais ar wasanaethau sylfaenol, cymunedol neu wasanaethau a gomisiynwyd. Nododd fy nhîm hefyd y gallai'r broses o ddadansoddi tueddiadau gael ei chysylltu'n well â gwaith gwella.
 - 64.** Mae'r Bwrdd yn deall y gellir ac y dylid gwella ansawdd data. Mae ganddo gynllun i ddileu'r ôl-groniadau o waith codio clinigol ac i ddatblygu'r swyddogaeth wybodaeth. Fodd bynnag, mae llawer i'w wneud o hyd er mwyn cyflawni'r nod hwn.

-
- 65.** Cyhoeddwyd Datganiad Ansawdd Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar amser ac mae'n ddogfen ddiwyll a anelir at y cyhoedd ond mae diffyg manylder mewn manau. Mae arddull y Datganiad Ansawdd Blynyddol yn addas i'r cyhoedd ac ar y cyfan, mae'r ddogfen yn hawdd ei darllen. Er bod hyn yn gadarnhaol, mae lle i sicrhau yr ategir y ddogfen hon gan adroddiad manylach sy'n nodi ein perfformiad yn fwy manwl. O ran elfennau gorfodol Llywodraeth Cymru, dim ond 16 o'r 28 sydd wedi'u cynnwys, a cheir bylchau diangen mewn perthynas â chyfleu'r fframwaith ansawdd; sut mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau ansawdd; datganiadau ar y ffordd y caiff risgiau eu rheoli; a materion allweddol sy'n deillio o adroddiadau'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol ac adroddiadau allanol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod y gallai wneud mwy i egluro ei waith yn y meysydd hyn, ac mae wedi ceisio adborth cynnar gan fy nhîm a thrwy adolygiadau cymheiriaid, ac wedi cynnwys proses ddrafftio ddiwygiedig yn ei gynlluniau ar gyfer gwaith y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Mae gan y Bwrdd Iechyd gryn dipyn i'w wneud eto er mwyn gwneud defnydd effeithlon ac effeithiol o'i adnoddau, ond mae'n gwneud cynnydd cyson mewn nifer o feysydd cynyddol

Gwnaed cynnydd cyson yn y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael â materion blaenorol o ran y defnydd a wneir o adnoddau, ond cydnabyddir bod angen gwneud rhagor o waith

- 66.** Dangosir cynnydd ar faterion allweddol a nodwyd gennyf mewn asesiadau strwythuredig blaenorol yn [Arddangosyn 2](#) isod.

Arddangosyn 2: Y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn erbyn materion allweddol a nodwyd gennyf mewn asesiadau strwythuredig blaenorol

Mater	Cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd
Cynllunio'r gweithlu	Mae Cyfarwyddwr newydd y Gweithlu wrthi'n ymdrin â materion hirsefydledig o ran y broses strwythuredig o gynllunio'r gweithlu. Mae cryfderau'n gysylltiedig ag agweddau ar y broses weithredol o gynllunio'r gweithlu a cheir rhai enghreifftiau o arloesi, ond erys problemau o ran lefelau salwch a recriwtio staff meddygol.
Cynllunio	Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cynlluniau tymor canolig mwy ymarferol, gyda chanllawiau integredig clir ar gyfer cyfarwyddiaethau a thempledi i gefnogi dull gweithredu o'r gwaelod i fyny, ond mae'r cynllun tair blynedd presennol yn parhau'n uchelgeisiol heb Gynllun De Cymru y cytunwyd arno.

Mater	Cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd
Cyfleusterau	Mae'r cyfleusterau'n parhau i wella gyda pharc iechyd newydd Merthyr Tudful, a'r gwaith parhaus o adnewyddu Ysbyty'r Tywysog Siarl. Erys ôl-groniad sylweddol o waith cynnal a chadw, ac mae hyn yn effeithio ar gostau ynni gydag un peiriant gwres a phŵer cyfunol yn anweithredol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg am nifer o fisoedd, ond mae bellach yn weithredol.
Rheoli gwybodaeth	Canfu fy ngwaith diagnostig ar drefniadau data wrth gefn eu bod yn parhau i gael eu datblygu a chynigiau y dylid cynnal adolygiad llawn yn 2014. Mae fy ngwaith ar restrau aros yn mynd rhagddo a byddaf yn cyflwyno adroddiad ar hyn yn 2014.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael trafferth i gyflawni nifer o'r targedau perfformiad allweddol a nodwyd yn fframwaith cyflawni Llywodraeth Cymru, ond mae arwyddion o welliannau yn ddiweddar

67. Roedd Asesiad Strwythuredig eleni yn cynnwys dadansoddiad o'r data perfformiad sydd ar gael yn ganolog ar dargedau gwasanaeth allweddol. **Defnyddiwyd y data hyn i asesu i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaeth darbodus, hygyrch ac o ansawdd uchel i gleifion.**
68. Cymysg iawn yw perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn cyfres o fesurau effeithlonrwydd. Yn benodol, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhan o broses cyfeirio at lefel uwch Llywodraeth Cymru ar gyfer nifer o dargedau. Mae mesurau effeithlonrwydd a chost o gymharu â gweddill Cymru islaw'r cyfartaledd yn gyffredinol, ond mae arwyddion cynnar o welliant. Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
 - Mae gwariant fesul pen o'r boblogaeth yn uwch na'r rhan fwyaf o weddill Cymru, ond ceir hefyd lefel gydnabyddedig uwch na'r cyfartaledd o anghenion fesul pen o'r boblogaeth (fformiwla Townsend).
 - Mae cyfnodau aros ar gyfer derbyniadau brys yn hir o gymharu â gweddill Cymru.
 - Mae llawer o fesurau effeithlonrwydd dewisol yn gwella yn 2013, er eu bod yn wael o gymharu â gweddill Cymru; Yn benodol, mae cyfnodau aros dewisol, cyfraddau llawdriniaeth ar ddiwrnod derbyn y claf, llawdriniaethau dydd a chleifion allanol na wnaethant fynychu apwyntiadau i gyd yn cymharu'n wael â chyfartaledd Cymru ac nid ydynt yn cyrraedd y targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.
 - Mae ôl-groniad sylweddol o waith cynnal a chadw ystadau ac mae llawer o'r cyfarpar yn hen, fodd bynnag, nid yw perfformiad o ran y mesurau hyn yn anghydnaws â byrddau iechyd eraill.
 - Mae cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn parhau'n uwch na'r targedau.

-
- 69.** Cymysg yw perfformiad y Bwrdd Iechyd o ran cyfres o ddangosyddion ansawdd. Mae cyfraddau clostridium difficile y bwrdd ymhlith y rhai isaf yng Nghymru, ac mae'r cyfraddau MRSA islaw cyfartaledd Cymru. Mae perfformiad o ran pecynnau gofal i gleifion strôc yn amrywio o berfformiad eithaf da i berfformiad gwael, serch hynny, mae'r Bwrdd Iechyd yn y broses o ddatblygu cynlluniau i ganoli ei arbenigedd ym maes strôc er mwyn mynd i'r afael â hyn. Ceir RAMI uchel er bod y Cyfarwyddwr Meddygol wedi sefydlu ymchwiliad cynhwysfawr er mwyn deall beth sy'n achosi hyn yn hytrach na dibynnu ar waith codio neu ddemograffeg am esboniad. Mae'r adolygiadau hyn o farwolaethau yn cwmpasu'r holl farwolaethau mewn ysbytai, ac yn canolbwyntio ar ddysgu gwersi er mwyn gwella canlyniadau yn ogystal â deall pam bod y RAMI yn uchel.
- 70.** Mae'r gallu i gael gafaél ar wasanaethau yn brydlon yn gymharol wael, gyda rhai arwyddion o welliant yn 2013:
- perfformiad eithaf da o ran y targed i drin cleifion brys yr amheuir bod canser arnynt o fewn 31 diwrnod, a pherfformiad nodweddiadol ar gyfer y targed 62 diwrnod; ond nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cyrraedd targedau Cymru o hyd;
 - mae adrannau brys bellach yn perfformio'n well na chyfartaledd Cymru mewn perthynas â mynediad, er gwaethaf demograffeg sy'n heneiddio (ond unwaith eto nid yw perfformiad yn cyrraedd targedau Cymru); a
 - pherfformiad gwael o ran targedau ar gyfer atgyfeirio cleifion i gael triniaeth, gyda chanran uchel o gleifion yn aros dros 26 a 36 wythnos - ond mae hyn wedi gwella dros y chwe mis diwethaf.
- 71.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod ganddo lawer o gyfleoedd i wella ansawdd ac effeithlonrwydd gwasanaethau ac mae wedi rhoi nifer o systemau ar waith i helpu. Cynhelir y cyfarfodydd busnes clinigol er mwyn cynnal adolygiad integredig o berfformiad (ansawdd, effeithlonrwydd, cynlluniau gweithredol a chyllid) gyda chyfarwyddiaethau yn fisol. Mae swyddogaeth y tîm trawsnewid wedi esblygu'n Swyddfa'r Rhaglen er mwyn llywio cyfres o raglenni gwella sy'n canolbwyntio ar y meysydd effeithlonrwydd a mynediad allweddol mewn gofal dewisol a gofal heb ei drefnu. At hynny, mae'r Bwrdd, drwy ei Bwyllgor Cyllid a Pherfformiad, yn dwyn swyddogion gweithredol a chyfarwyddiaethau i gyfrif mewn modd a gynlluniwyd.
- 72.** Y brif her a wynebir yw llywio gwelliant mewn modd systematig, ac mae rhai arwyddion cynnar i awgrymu bod perfformiad mewn perthynas â nifer o fesurau allweddol yn gwella yn raddol. Enghraifft dda yw gofal heb ei drefnu, lle mae cynnydd tuag at gyflawni'r targed i dderbyn 95 y cant o gleifion o fewn pedair awr yn gwella o fis i fis.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos gweledigaeth ac arweinyddiaeth strategol wrth reoli prosesau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol er bod lle i wella ansawdd rhagnodi mewn rhai meysydd pwysig

73. Mae gan y Bwrdd weledigaeth glir ar gyfer prosesau rheoli meddyginiaethau sy'n helpu i'w hintegreiddio ar draws gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Mae'n monitro'n agos y targed arbedion a'r cynlluniau gweithredu o ran rhagnodi ym maes gofal sylfaenol, ond ni ddylid caniatáu i'w ffocws ar arbedion ariannol fwrw cysgod dros yr agenda ansawdd, sydd yr un mor bwysig:

- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu gweledigaeth strategol glir ar gyfer rheoli meddyginiaethau fel rhan o'i Fframwaith Gweithlu a Chyllid Strategol ar gyfer 2010 - 2015. Mae'r strategaeth yn helpu i integreiddio prosesau rheoli meddyginiaethau ar draws gofal sylfaenol a gofal eilaidd, gan gefnogi gweledigaeth gyffredinol y Bwrdd Iechyd o symud y ddarpariaeth o ofal eilaidd i ofal cymunedol a gofal sylfaenol yn unol â 'Pennu'r Cyfeiriad'.
- Caiff y Strategaeth Rheoli Meddyginiaethau ei llywio gan ddadansoddiad clir o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiadau rhagnodi sy'n cydnabod y gellir priodoli cyfraddau rhagnodi uchel y Bwrdd Iechyd yn bennaf i ddemograffeg a lefelau amddifadedd. Mae hefyd yn gyson â pholisïau cenedlaethol a lleol ar reoli meddyginiaethau, ac yn cefnogi'r broses o'u cyflawni, er nad oes unrhyw dystiolaeth bod rhanddeiliaid allweddol megis meddygon teulu a chynrychiolwyr cleifion yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r strategaeth.
- Mae'r Strategaeth Rheoli Meddyginiaethau yn cynnwys dadansoddiad ariannol sy'n seiliedig ar dwf hanesyddol y bil cyffuriau lleol, gan osgoi trosglwyddo costau rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd ac mae'n cynnwys model sefydledig ar gyfer cynllunio, monitro a rhagweld gwariant ar feddyginiaeth sy'n gysylltiedig â gofynion NICE.
- Monitro canlyniadau a pherfformiad: mae cynllun gweithredu blynyddol y Gyfarwyddiaeth Rheoli Meddyginiaethau ar gyfer 2012-13 yn cynnwys pedwar peth allweddol y dylid ei gyflawni sy'n bodloni meini prawf CAMPUS, ond ni ddylid caniatáu i'r ffocws ar arbedion ariannol fwrw cysgod dros yr agenda ansawdd, sydd yr un mor bwysig.

74. Mae atebolrwydd rheolwyr am reoli meddyginiaethau yn glir. Dylai dull gweithredu'r Gyfarwyddiaeth Rheoli Meddyginiaethau o dargedu'r arferion gwario uchaf sicrhau mwy o elw o fuddsoddi. Mae gan y Bwrdd Iechyd gyffurlyfr sefydledig ac mae'r broses o integreiddio gofal sylfaenol a gofal eilaidd yn arwain at welliannau ar draws y rhyngwyneb:

- Mae'r trefniadau ar gyfer atebolrwydd swyddogion gweithredol, gweithwyr proffesiynol a rheolwyr am reoli meddyginiaethau a rhagnodi ym maes gofal sylfaenol yn glir. Mae integreiddio staff rheoli meddyginiaethau ar draws gofal sylfaenol a gofal eilaidd eisoes yn sicrhau buddiannau ar draws meysydd gwasanaeth y Bwrdd Iechyd.

- Mae dau dîm cyngor ar ragnodi y Bwrdd Iechyd yn treulio dros hanner eu hamser yn gweithio gyda meddygfeydd yn rhoi cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol, ac maent yn elwa ar ddata a ddadansoddir yn ganolog. Ceir tystiolaeth o ddefnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau cyfyngedig ar ffurf cymorth cynghorydd y fferyllfa yn cael ei dargedu at yr arferion gwario uchaf.
- Datblygwyd y cyffurlyfr ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a chaiff ei dderbyn yn eang gan feddygon teulu a'i ddefnyddio ganddynt.
- Mae Pwyllgor Rheoli Meddyginiaethau a Gwariant Cwm Taf yn gweithio'n agos gyda Phwyllgor Cyffuriau a Therapiwteg Bro Taf e mwyn rhoi sicrwydd bod y broses o reoli meddyginiaethau yn sicrhau'r gofal gorau i gleifion, a'i bod yn ddiogel, yn gyfreithiol ac yn cael ei darparu o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'r Bwrdd Iechyd.
- Mae gan y Bwrdd Iechyd broses drylwyr a hirsefydledig o ddatblygu protocolau a sicrhau y cânt eu defnyddio'n gywir ar draws gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Mae dros 30 o brotocolau gofal a rennir o ansawdd da ar waith er mwyn cefnogi trefniadau rhyngweithio.

75. Mae gan y Bwrdd Iechyd enw da am sicrhau arbedion ariannol drwy brosesau rhagnodi mwy rhesymol ym maes gofal sylfaenol. Fodd bynnag, mae lle i wneud arbedion ychwanegol mewn rhai meysydd, megis rhagnodi cyffredinol, gyda photensial i arbed tua £1.2 miliwn heb effeithio ar ofal cleifion drwy gynyddu lefelau rhagnodi cyffredinol, a lleihau faint o gyffuriau sy'n cael eu gwastraffu (hyd at £2.6 miliwn). At hynny, mae lle i gynnal adolygiad beirniadol o'r modd y caiff rhai cyffuriau eu rhagnodi fel rhan o ffocws cynyddol ar faterion ansawdd a diogelwch:

- Roedd targed arbedion y Bwrdd Iechyd ar gyfer prosesau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol, sef dros £1 filiwn ar gyfer 2012-13, yn geidwadol ac fe'i lluniwyd gan ddefnyddio data priodol ar gostau hanesyddol a phwysau o ran costau yn y dyfodol. Lleihaodd costau rhagnodi £2.3 miliwn o gymharu â 2012-13 sy'n dangos bod y ffocws ar leihau cost a graddau rhagnodi yn gweithio yn ymarferol.
- Mae'r Uned Rheoli Meddyginiaethau yn llunio 'adroddiad cryno' misol sy'n nodi cynnydd yn erbyn targedau gwariant, ansawdd ac arbedion; mae'r trefniadau hyn yn gweithio'n dda gan fod gan yr Uned yr arbenigedd canolog i gynnal dadansoddiad helaeth o ddata a chyflwynir y metrigau rheoli meddyginiaethau i'r Cyfarwyddwr Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Iechyd Meddwl, a chyfarfodydd busnes clinigol y Bwrdd Iechyd.

Gwnaed cynnydd da mewn nifer o feysydd er mwyn gwella'r defnydd o adnoddau; yn benodol rheoli contractau meddygon ymgynghorol, bwyd ac arlwyyo mewn ysbytai, a rheoli gofal heb ei drefnu a chyflyrau cronig

76. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae fy nhîm wedi gwneud gwaith archwilio dilynol i asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r pryderon a'r argymhellion sy'n deillio o waith archwilio blaenorol mewn meysydd penodol lle y darperir gwasanaethau. Ceir crynodeb o ganfyddiadau'r gwaith dilynol yn [Arddangosyn 3](#).

77. Cyflwynais fy nghanfyddiadau ar waith Rheoli Gofal Heb ei Drefnu a Chyflyrau Cronig yn llawn yn fy Adroddiad Archwilio Blyneddol yn 2012, ond mae'n werth nodi yma bod fy nhîm yn cadw golwg ar y meysydd pwysig hyn. Nodaf fod cynnydd da yn cael ei wneud tuag at gyflawni'r targedau ar gyfer mynediad at ofal heb ei drefnu, ac mae'r trefniadau rheoli rhaglen y bwriedir iddynt gefnogi gwelliant parhaus yn dangos arwyddion cynnar o lwyddiant.

Arddangosyn 3: Cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwiliadau

Maes y gwaith dilynol	Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad
<p>Contractau meddygon ymgynghorol</p>	<p>Mae'r Bwrdd lechyd yn blaenoriaethu'r gwaith o weithredu fy argymhellion ac mae wedi gwneud cynnydd cyson tuag at sefydlu'r rhain drwy adolygiadau o gynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol, er nad yw pob cyfarwyddiaeth yn gwneud cynnydd ar yr un cyflymder.</p> <p>Yn benodol, nodais fod y Bwrdd lechyd wedi gosod sylfeini cadarn drwy adolygu ei ganllawiau a chytuno ar brosesau â staff meddygol cyn eu gweithredu. Cymerodd hyn gryn amser, ond, unwaith y cytunwyd arno, gwelwyd cynnydd cyson tuag at sefydlu'r dull gweithredu cyson newydd, er bod cyfarwyddiaethau yn gwneud cynnydd ar gyflymder gwahanol. Mae'r Bwrdd yn parhau i fonitro'r maes hwn.</p>
<p>Bwyd ac Arlwyio mewn Ysbytai</p>	<p>Gwnaeth y Bwrdd lechyd gynnydd da o ran gweithredu fy argymhellion o ran gwasanaethau arlwyio a maeth i gleifion. Mae angen gwneud rhagor o waith mewn perthynas â nifer fach o gamau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae cost uchel hanesyddol gwasanaethau arlwyio yn lleihau ond mae gwahaniaeth sylweddol o hyd mewn costau arlwyio yn y ddau brif ysbyty, yn rhannol oherwydd y ffaith bod y model 'coginio-rhewi' yn parhau i gael ei gyflwyno yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. • Mae'r Bwrdd lechyd yn adennill cyfran uwch o gostau gwasanaethau arlwyio i bobl nad ydynt yn gleifion ond gallai gymryd peth amser cyn i'r gwasanaethau hyn fantoli eu cyllidebau. • Mae'r Bwrdd lechyd wedi lleihau'r gwastraff bwyd ac mae bellach yn cydymffurfio'n gyfforddus â'r targed gwastraff a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. • Mae staff wardiau yn parhau i gydymffurfio ag arferion hylendid bwyd sylfaenol ond mae diffyg cydymffurfiaeth â phechyn e-ddysgu'r adnodd sgrinio cenedlaethol yn golygu nad yw staff nyrsio yn dilyn canllawiau cyffredinol ar hylendid bwyd. • Mae'r Bwrdd lechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i wella profiadau cleifion yn ystod amseroedd bwyd; mae cydymffurfiaeth ag amseroedd bwyd wedi'u neilltuo wedi gwella, ac mae staff nyrsio yn gyffredinol ar gael i helpu cleifion ar yr adeg gywir.

**Maes y gwaith
dilynol****Bwyd ac Arlwyo
mewn Ysbytai****Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad**

- Gwelwyd gwelliannau ym maes gofal maethol gyda chleifion yn cael eu sgrinio wrth gael eu derbyn ond nid oes cynlluniau gofal maethol bob amser ar waith ac mae diffyg cydymffurfiaeth â phhecyn e-ddysgu'r adnodd sgrinio cenedlaethol.

Atodiad 1

Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

Adroddiad	Dyddiad
Adroddiadau archwilio ariannol	
Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol	Mai 2013
Barn ar y Datganiadau Ariannol	Mehfin 2013
Memorandwm Datganiadau Ariannol	Hydref 2013
Adroddiadau archwilio perfformiad	
Adolygiad Dilydol o Wasanaethau Arlwy mewn Ysbytai	Mai 2013
Adolygiad o Gynnydd wrth Weithredu Argymhellion yr Adroddiad Lleol Moderneiddio Tâl: Contract Meddygon Ymgynghorol y GIG	Mehfin 2013
Rhagnodi ym maes Gofal Sylfaenol	Medi 2013
Diagnosteg Data Wrth Gefn	Tachwedd 2013
Gwybodaeth Feincnodi am Drefniadau Staffio Wardiau	Rhagfyr 2013
Adroddiadau eraill	
Amlinelliad o'r Gwaith Archwilio ar gyfer 2013	Ebrill 2013

Mae nifer o archwiliadau o berfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

Adroddiad	Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig
Theatrau Llawdriniaethau a Llawdriniaethau Dydd - Adolygiad Dilydol	Ionawr 2014
Codio Clinigol	Ionawr 2014
Staffio Wardiau – Adolygiad Dilydol (crynodeb)	Chwefror 2014
Rhestrau Aros (prosiect lleol)	Mawrth 2014
Orthopedeg	Mawrth 2014
Nyrsio Cymunedol	Mai 2014

Atodiad 2

Ffi archwilio

Nododd yr *Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2013* ffi archwilio arfaethedig o £457,139 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

Atodiad 3

Risgiau archwiliad ariannol

Nododd yr *Amlinelliad o Waith Archwilio* ar gyfer 2013 risgiau archwiliad ariannol allweddol ar gyfer 2013. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad.

Risg archwiliad ariannol	Gwaith wnaed a chanlyniadau
Oherwydd yr amserlen dynn, mae'r datganiadau ariannol o reidrwydd yn cynnwys nifer o ffigurau amcangyfrifedig, gan nad oedd y ffigurau gwirioneddol ar gael ar adeg eu llunio, yn enwedig ynghylch Gofal Sylfaenol a Gofal lechyd Parhaus.	Fel rhan o'n gwaith cynllunio, gwnaethom feithrin dealltwriaeth o'r ffordd y câi amcangyfrifon eu llunio. Yn ystod yr archwiliad terfynol, gwnaethom gadarnhau bod y Bwrdd lechyd wedi darparu ffigurau amcangyfrifedig yn unol â'n dealltwriaeth ac y gallai'r ffigurau a luniwyd gael eu cefnogi a'u bod yn rhesymol.
Ailbrisiwyd ystâd y Bwrdd lechyd gan y Prisiwr Dosbarth. Gwnaethom nodi risg nad oedd prisiad y Prisiwr Dosbarth wedi'i adlewyrchu'n briodol yn y cyfrif ac efallai nad oedd yr ystâd wedi'i phrisio yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.	Gwnaethom adolygu'r trefniadau ac adroddiad y Prisiwr Dosbarth yn unol â gofynion ISA 500 (Arbenigwr Rheoli) a chadarnhawyd eu bod yn briodol. Cytunwyd hefyd ar y modd y caiff materion cyfrifyddu eu trin.
Efallai na roddwyd cyfrif cywir am atebolrwyddau posibl neu wirioneddol sy'n deillio o'r anghydfod cyfreithiol rhwng y Bwrdd lechyd a'r prif gontractwr ar gyfer Ysbyty Cwm Rhondda.	Gwnaethom adolygu'r cyngor a gafwyd gan gynghorydd cyfreithiol y Bwrdd lechyd a gohebiaeth rhwng yr achwynydd a'r Bwrdd lechyd, a daethpwyd i'r casgliad bod y sefyllfa bresennol wedi'i hadlewyrchu'n briodol yn y cyfrif yn unol â safonau cyfrifyddu.
Oherwydd nifer o newidiadau ymysg uwch reolwyr y Bwrdd lechyd yn ystod y flwyddyn, gwnaethom nodi efallai nad oedd yr Adroddiad Cydnabyddiaeth yn cynnwys yr holl ddatgeliadau gofynnol yn briodol.	Gwnaethom adolygu'r newidiadau i'r Bwrdd ac roeddem o'r farn bod yr Adroddiad Cydnabyddiaeth yn cynnwys pawb â chyfrifoldeb priodol am reoli a bod eu manylion cydnabyddiaeth yn gywir.
Yn 2012-13, nodwyd bod angen i'r Datganiad Llywodraethu gael ei ymgorffori'n well o fewn trefniadau Llywodraethu'r Bwrdd lechyd ac y dylai'r datganiad fod o ansawdd gwell.	Er bod y drafft cyntaf yn cynnwys mân hepgoriadau gorfodol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ystyriwyd bod ei ansawdd cyffredinol a'r broses o'i gynhyrchu wedi gwella a bod y datganiad terfynol yn adlewyrchiad teg o'n barn ar drefniadau rheolaeth fewnol a llywodraethu'r Bwrdd.



WALES **AUDIT** OFFICE

SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Ffôn: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Ffacs: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

E-bost: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk